

The logo for Ofcom, featuring the word "Ofcom" in a bold, red, sans-serif font.

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

Making communications work **for everyone**

Darparu Openreach sy'n fwy annibynnol

Datganiad ar ryddhau Rhwymedigaethau BT yn unol ag
adran 154 o Ddeddf Menter 2002

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 13 Gorffennaf 2017

Gair am y ddogfen hon

Ar 10 Mawrth 2017, rhoddodd BT wybod i Ofcom am ymrwymïadau gwirfoddol i ddiwygio Openreach ymhellach. Mae hyn yn golygu y bydd Openreach yn dod yn gwmni ar wahân, gyda'i staff, ei reolwyr, ei bwrpas a'i strategaeth ei hun.

Rydym o'r farn fod yr Ymrwymïadau sy'n cael eu rhoi gan BT yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon o ran cystadleuaeth a nodwyd yn ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol. Ym mis Mawrth 2017 roedden ni wedi cyhoeddi ein Hymgyngoriad yn cynnig y dylid rhyddhau BT o'r Rhwymedigaethau yr oedd wedi'u cynnig i Ofcom yn 2005, o dan y rhain y cafodd Openreach ei greu yn wreiddiol.

Mae'r datganiad hwn yn cadarnhau ein penderfyniad i ryddhau BT o'r Rhwymedigaethau ar ôl i'r Ymrwymïadau ddod ar waith yn llawn. Mae'r ddogfen hon hefyd yn egluro sut byddwn ni'n mesur cydymffurfiad â'r trefniadau newydd ac yn asesu a ydynt yn darparu canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr ac i fusnesau.

Cynnwys

Adran

1 Crynodeb gweithredol

Tudalen

1

Adran 1

Crynodeb gweithredol

- 1.1 Mae BT wedi cytuno, drwy gyfres Ymrwymadau, y bydd Openreach yn dod yn gwmni ar wahân gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr Annibynnol, ei staff, ei reolwyr a'i strategaeth ei hun. Bydd gan y cwmni ddyletswydd newydd i wasanaethu ei gwsmeriaid yn gyfartal.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn egluro ein penderfyniad i ryddhau BT o'i Rwymedigaethau presennol ar ôl i'w Ymrwymadau newydd ddod i rym, a sut bydd llwyddiant y model newydd ar gyfer Openreach yn cael ei fesur a'i fonitro.
- 1.3 Ers mis Mawrth, mae BT ac Openreach wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at weithredu'r trefniadau newydd. Bydd cwblhau'r diwygiadau'n dibynnu ar nifer o amodau, gan gynnwys y Llywodraeth yn diwygio Gwarant y Goron ar gyfer cynllun pensiwn BT a throsglwyddo staff o BT i'r cwmni newydd.
- 1.4 Bydd Ofcom yn monitro cydymffurfiad BT ac Openreach â'r Ymrwymadau newydd yn ofalus, ynghyd â'r canlyniadau ehangach i'r diwydiant drwyddo draw, i bobl ac i fusnesau. Byddwn yn mesur i ba raddau mae Openreach yn gwella ei rwydwaith i ddarparu band eang teilwng rŵan ac yn y dyfodol, a helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd gwell.

Sut bydd Ofcom yn monitro canlyniadau

- Mae ar Ofcom eisiau i Openreach ddiwygio i ddarparu gwasanaethau ffôn a band eang gwell i bobl ac i fusnesau. Bydd Openreach mwy annibynnol sy'n siarad â'i gwsmeriaid yn cael cymhelliant iawn i fuddsoddi mewn rhwydweithiau o ansawdd uchel i ddarparu gwelliannau go iawn mewn gwasanaethau band eang.
- Byddwn yn mesur ac yn adrodd ar argaeledd rhwydweithiau band eang ffibr, gan gynnwys rhwydweithiau 'ffibr llawn'. Byddwn hefyd yn edrych i weld a ydy defnyddwyr a busnesau ar draws pob rhan o'r DU yn cael cyflymder teilwng.
- Rydyn ni hefyd eisiau gweld newid mawr mewn ansawdd gwasanaeth. Byddwn yn adrodd ar amseroedd trwsio a gosod, gan gynnwys a ydy peirianwyr yn cyrraedd yn brydlon.
- Byddwn yn monitro'n ofalus sut mae BT yn diwallu ei ymrwymadau i ddarparu'r un manteision yng Ngogledd Iwerddon, lle nad ydy Openreach ei hun yn gweithredu.

Sut bydd Ofcom yn monitro cydymffurfiad

- Mae Ofcom nawr yn sefydlu Uned Monitro Openreach penodol, er mwyn monitro'n ofalus a ydy'r trefniadau newydd yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.
- Bydd yr uned yn asesu a ydy'r rheolau llywodraethu newydd yn cael eu dilyn, ac a ydy Open yn gweithredu'n fwy annibynnol ar BT. Mae hyn yn golygu gwneud ei benderfyniadau ei hun a thrin ei holl gwsmeriaid yn gyfartal. Bydd yn ystyried a ydy BT ac Openreach yn dilyn yr Ymrwymadau mewn gweithred ac mewn ysbryd, ac yn creu diwylliant llwyddiannus sy'n gwerthfawrogi annibyniaeth Openreach.
- Bydd Ofcom yn adrodd ar y cydymffurfiad hwn chwe mis ar ôl i'r Ymrwymadau ddod i rym, ac wedyn bob blwyddyn.

Rhyddhau BT o'i Rwymedigaethau cyfredol

- Ar ôl ymgynghori, rydyn ni wedi penderfynu rhyddhau BT o'i Rwymedigaethau blaenorol 30 diwrnod ar ôl i BT gadarnhau ei fod wedi diwallu amodau penodol yn ei Ymrwymadau newydd.

Bydd Openreach yn dod yn gwmni ar wahân gyda mwy o annibyniaeth a dyletswydd i drin ei holl gwsmeriaid yn gyfartal.

- 1.5 Roedd Adolygiad Strategol Ofcom o Gyfathrebiadau Digidol yn nodi ein strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau band eang cyflym a dibynadwy, symud tuag at ddyfodol ffibr, a band eang teilwng i bawb. Bydd Openreach yn chwarae rhan hollbwysig yn sicrhau'r gwelliannau hyn i filiynau o bobl a busnesau yn y DU sy'n dibynnu ar ei rwydwaith.
- 1.6 Roedd ein hadolygiad wedi dod o hyd i bryderon bod strwythur cyfredol Openreach yn golygu bod modd i BT wahaniaethu yn erbyn cystadleuwyr. Roedd integreiddiad Openreach gyda BT Group yn golygu bod penderfyniadau newydd ynghylch buddsoddiad strategol yn cael eu gwneud ar lefel grŵp. Roedd hyn yn creu'r risg y gallai'r penderfyniadau ffafrio buddiannau adrannau adwerthu BT ar draul rhai darparwyr sy'n cystadlu. Heb ymyriad, gallai'r pryder hwn ynghylch cystadleuaeth danseilio'r cymhelliant i gwmnïau fuddsoddi ac, yn y pen draw, gallai ddylanwadu ar bris, ansawdd ac argaeledd y gwasanaethau mae pobl a busnesau yn eu cael.
- 1.7 Er mwyn datrys hyn, dywedom fod angen i Openreach gael rhagor o annibyniaeth i wneud penderfyniadau gweithredol a strategol, gan ystyried buddiannau ei holl gwsmeriaid yn gyfartal. I'r perwyl hwn, roedden ni'n paratoi hysbysiad i'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn gwahanu Openreach yn gyfreithiol.
- 1.8 Ym mis Mawrth 2017, rhoddodd BT wybod i ni am ymrwymadau gwirfoddol i ddiwygio Openreach ymhellach. Mae Hysbysiad BT yn golygu y bydd Openreach yn gwmni ar wahân, Openreach Limited, gyda'i Fwrdd Cyfarwyddwyr, ei staff, ei reolwyr a'i strategaeth ei hun. Bydd gan y cwmni ddyletswydd newydd i wasanaethu ei gwsmeriaid yn gyfartal.
- 1.9 Mae'r Ymrwymadau'n cynnwys diwygiadau i'r modd y mae BT yn gweithio yng Ngogledd Iwerddon, lle nad yw Openreach yn gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl a busnesau yng Ngogledd Iwerddon yn elwa o'r model newydd yn yr un ffordd â gweddill y DU.
- 1.10 Yn dilyn Hysbysiad BT, roedden ni wedi cyhoeddi dogfen a oedd yn egluro pam ein bod yn creu y dylai'r trefniadau newydd fynd i'r afael â'n pryder o ran cystadleuaeth, yn amodol ar ymrwymiad parhaus BT ac Openreach. Roedden ni hefyd wedi ymgynghori ynghylch cynnig i ryddhau BT o'r rhwymedigaethau Deddf Menter a roddodd i Ofcom yn 2005, gan eu bod yn cael eu dyblygu a'u hystemyn drwy'r model newydd o wahanu cyfreithiol.
- 1.11 Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd i'n Hymgyngoriad ym mis Mawrth 2017 yn ofalus, rydyn ni wedi penderfynu gweithredu ein cynnig i ryddhau BT o'r Rhwymedigaethau pan fydd yr Ymrwymadau ar waith yn llawn. Mae'r datganiad hwn yn ddechrau ar Openreach a fydd yn fwy annibynnol, a fydd yn ymateb i'w gwsmeriaid, a fydd yn cefnogi rhagor o fuddsoddiad ac a fydd yn darparu gwasanaeth o ansawdd uwch.
- 1.12 Mae Openreach mwy annibynnol yn un o elfennau ein strategaeth ehangach i ddarparu band eang gwell i bobl ac i fusnesau. Bydd y trefniadau newydd ar gyfer Openreach yn cyfuno â'n gwaith i hyrwyddo cystadleuaeth, buddsoddiad a gosod

ansawdd safonau gwasanaeth. Mae hi'n bwysig bod Openreach yn chwarae ei ran yn cyflawni'r nodau hyn, er budd y diwydiant drwyddo draw.

Byddwn yn mesur sut mae'r model newydd yn darparu ar gyfer pobl a busnesau.

- 1.13 Prif nod unrhyw newidiadau i strwythur Openreach ydy sicrhau gwasanaethau ffôn a band eang gwell i ddefnyddwyr ac i fusnesau. Ynghyd â rheoleiddio ehangach, dylai'r trefniadau newydd greu'r amodau iawn er mwyn i Openreach weithio gyda'i gwsmeriaid i sicrhau gwelliannau go iawn, mewn tri maes pwysig:
 - 1.13.1 sicrhau bod mwy o rwydweithiau band eang ffibr ar gael i ddarparu gwasanaethau band eang cyflym a dibynadwy, o ganlyniad i Openreach yn ymgysylltu'n effeithiol â'i gwsmeriaid;
 - 1.13.2 sicrhau gwasanaethau band eang teilwng i holl ddefnyddwyr a busnesau y DU, ar gyflymder sy'n ddigonol er mwyn diwallu anghenion modern; a
 - 1.13.3 newid sylweddol mewn ansawdd gwasanaethau, i sicrhau bod perfformiad Openreach yn diwallu anghenion yr holl gwsmeriaid cyfanwerthol ac adwerthol.
- 1.14 Bydd llwyddiant yn dibynnu'n drwym ar ymrwymiad BT Group ac Openreach a'u hymddygiad. At ei gilydd, rydym yn credu y bydd i ba raddau y mae'r model newydd yn llwyddo i gyflawni'r manteision hyn ar gyfer defnyddwyr a busnesau yn dod yn amlwg cyn pen tair blynedd ar ôl ei roi ar waith.
- 1.15 Rydym yn disgwyl i Openreach fod yn ymatebol i fodolau masnachol gwahanol o fuddsoddiad a fydd yn cael eu cynnig gan ei gwsmeriaid, gan gynnwys buddsoddi ar y cyd a rhannu risg. Rydym hefyd yn disgwyl i Openreach fod yn ymatebol i geisiadau gan gystadleuwyr BT i adeiladu eu rhwydweithiau ffibr eu hunain drwy ddefnyddio polion a phibellau tanddaearol presennol Openreach.
- 1.16 Byddwn yn olrhain a ydy'r trefniadau newydd yn cyflawni'r canlyniadau iawn, drwy fesur ac adrodd yn rheolaidd ar amrywiaeth o ddangosyddion. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar sut mae perfformiad ac ymddygiad Openreach yn cyfrannu at newid cadarnhaol. Er bod Openreach yn chwarae rhan fawr yn y farchnad, bydd ffactorau eraill yn dylanwadu ar rai datblygiadau. Felly byddwn yn monitro ac yn adrodd ar fetrigau mae modd eu priodoli'n agos i berfformiad Openreach, fel sy'n cael ei ddangos yn yr enghreifftiau isod.

Ffigur 1: Metrigau dangosol i fesur canlyniadau i ddefnyddwyr

- 1.17 Byddwn yn monitro perfformiad Openreach yn erbyn y metrigau uchod, mewn cyfres o adroddiadau ehangach. Bydd y rhain yn defnyddio data o gyhoeddiadau allanol Ofcom, fel ein hymchwil Cysylltu'r Gwledydd, a gwybodaeth gan Uned Monitro Openreach. Byddant yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr ag adroddiad cydymffurfiad blynyddol yr uned monitro.

Bydd y gwaith monitro'n hollbwysig i sicrhau bod BT ac Openreach yn cydymffurfio

- 1.18 Yn ogystal â gwelliannau i rwydweithiau a gwasanaethau band eang, mae hefyd angen i ni fonitro ymddygiad BT ac Openreach a'r rhyngweithio a fydd rhyngddynt.

- 1.19 Un o fanteision yr Ymrwymadau ydy'r tryloywder maent yn eu rhoi o ran y berthynas rhwng Openreach a BT Group, yn enwedig o ran penderfyniadau buddsoddiad strategol. Bydd monitro cryf ac effeithiol yn hollbwysig i sicrhau bod Openreach yn gweithredu'n fwy annibynnol, er budd ei holl gwsmeriaid. Er mwyn cyflawni hyn, bydd Uned Monitro Openreach arbennig yn Ofcom yn monitro'r model newydd yn ofalus ar draws tri maes:
- 1.19.1 sicrhau bod BT ac Openreach yn gweithredu'r trefniadau'n llwyddiannus;
 - 1.19.2 cydymffurfio â'r trefniadau llywodraethu ffurfiol newydd; a
 - 1.19.3 a ydy ymddygiad Openreach a BT yn rhoi'r rhagor o annibyniaeth sydd ei angen ar gyfer Openreach oddi wrth BT, o ran gwneud ei benderfyniadau strategol ei hun a thrin ei holl gwsmeriaid yn gyfartal.
- 1.20 Bydd y dull gweithredu hwn yn rhan o gynllun gwaith Uned Monitro Openreach. Byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau mewn cyfres o adroddiadau, i ddechrau chwe mis ar ôl i'r Ymrwymadau ddod i rym, a bob blwyddyn ar ôl hynny. Bydd yr adroddiadau monitro'n asesu cydymffurfiaid BT ac Openreach gyda'r trefniadau newydd, gan gynnwys unrhyw feysydd sy'n achosi pryder.
- 1.21 Bydd llwyddiant y model newydd yn dibynnu ar ymrwymiad BT Group ac Openreach i'w weithredu, a'u hymddygiad. Rhaid i Openreach a BT ddilyn yr Ymrwymadau mewn gweithred ac mewn ysbryd, gan ddatblygu diwylliant sy'n gwerthfawrogi gwneud penderfyniadau annibynnol.
- 1.22 Yn ogystal â monitro cydymffurfiaid â'r Ymrwymadau, bydd Ofcom yn parhau i sicrhau bod BT ac Openreach yn cydymffurfio â'u dyletswyddau rheoleiddiol eraill. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein pwerau gorfodi pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio, a all gynnwys gosod cosbau ariannol.

Rydyn ni'n disgwyl i ddefnyddwyr a busnesau yng Ngogledd Iwerddon elwa hefyd

- 1.23 Nid ydy Openreach yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon, lle mae gwasanaethau cyfanwerthu a thelegyfathrebiadau rhwydwaith yn cael eu rheoli gan un endid yn BT, Northern Ireland Networks. Mae'r strwythur hwn yn dibynnu ar rannu adnoddau peirianeg rhwng gweithrediadau BT ei hun a'r swyddogaethau mae'n eu cyflawni ar ran Openreach. At ei gilydd mae'n gweithio'n dda, ac mae perfformiad ansawdd gwasanaeth BT yng Ngogledd Iwerddon yn cymharu'n dda ag Openreach ym Mhrydain Fawr.
- 1.24 Er gwaethaf y gwahaniaethau lleol mewn strwythur sefydliadol, rydym yn disgwyl y bydd Gogledd Iwerddon yn elwa o'r model newydd i'r un graddau â gweddill y DU. Mewn gwirionedd mae Northern Ireland Networks yn gweithredu fel asiant i Openreach, gan adeiladu rhwydweithiau a gwasanaethau ar sail y rheini sydd wedi cael eu datblygu'n ganolog. O dan y model newydd, bydd penderfyniadau buddsoddiad strategol yn adlewyrchu anghenion holl ddefnyddwyr a busnesau'r DU, ac nid dim ond rhai BT Group. Ar yr un pryd, bydd darparu'r strategaeth rhwydwaith hwnnw'n fanwl yn dal i fod yn seiliedig ar anghenion lleol pobl a busnesau yng Ngogledd Iwerddon.
- 1.25 Mae Hysbysiad BT yn cynnwys ymrwymadau penodol (Adran 18) sy'n cryfhau'r trefniadau cyfredol yng Ngogledd Iwerddon ac sy'n adlewyrchu prif egwyddorion model newydd gwahanu Openreach yn gyfreithiol. Caiff yr Ymrwymadau hyn eu

hymestyn gan brotocol ar wahân a ddatblygwyd gan BT a fydd yn llywodraethu'r berthynas rhwng Northern Ireland Networks and BT Group¹. Mae'r protocol yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan randdeiliaid yng Ngogledd Iwerddon, a bydd ganddo'r un statws ag Ymrwymïadau BT a'r Protocol Llywodraethu.

- 1.26 Byddwn yn monitro cydymffurfiad â'r ymrwymïadau hyn yn ofalus, a phrotocol Gogledd Iwerddon, fel rhan o'n rhaglen monitro Openreach ehangach. Ein ffocws fydd sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yng Ngogledd Iwerddon yn elwa yn yr un ffordd â gweddill y DU.

Mae BT ac Openreach yn rhoi'r trefniadau newydd ar waith, ond mae gwaith eto i'w wneud cyn i'r Ymrwymïadau ddod i rym.

- 1.27 Mae Ymrwymïadau BT yn amodol yn ffurfiol ar bedwar rhag-amod. Nes i'r rhain gael eu bodloni, bydd y model presennol yn dal yn weithredol. Dyma'r amodau:

- bod Gwarant y Goron, sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i atebolrwydd BT i gynllun pensiwn BT, yn cael ei addasu neu ei atodi i gynnal diogelwch pensiwn i aelodau'r cynllun sy'n trosglwyddo i Openreach Limited a fydd yn cael ei ymgorffori o'r newydd. Mae hyn yn fater i'r Llywodraeth ei weithredu;
- cymeradwyaeth gan Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn BT i Openreach Limited fod yn gyflogwyr sy'n cymryd rhan yng nghynllun pensiwn BT;
- cwblhau'r prosesau ymgynghori o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE), sy'n angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo cyflogeion; a
- rhyddhau BT o'r Rhwymedigaethau, gyda'r Ymrwymïadau newydd yn cymryd eu lle.

- 1.28 Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cyflwyno pŵer i alluogi'r Llywodraeth i barhau i warantu atebolrwydd cynllun pensiwn BT sy'n ymwneud ag aelodau'r cynllun sy'n trosglwyddo i Openreach ar wahân. Mae'r Llywodraeth nawr yn y broses o ddrafftio is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i weithredu hyn, drwy ymgynghori â BT, Ymddiriedolwyr cynllun pensiwn BT a rhanddeiliaid ehangach.

- 1.29 Fodd bynnag, rydym yn disgwyl gweld Openreach yn gweithredu gyda rhagor o annibyniaeth a ffocws ar drin ei gwsmeriaid yn gyfartal o'r cychwyn, hyd yn oed cyn i'r Ymrwymïadau ddod i rym yn ffurfiol.

- 1.30 Ers Hysbysiad BT, mae BT ac Openreach wedi cymryd nifer o gamau calonogol tuag at weithredu'r trefniadau newydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- penodi a chynefino Bwrdd Openreach annibynnol gan fwyaf, dan gadeiryddiaeth Mike McTighe;
- creu a chynnal cyfarfod cyntaf Pwyllgor Archwilio, Risg a Chydymffurfiad Bwrdd Openreach (OBARCC), sy'n gyfrifol am gydymffurfiad Openreach; a

- ymgynghoriad gan Openreach ar broses newydd ar gyfer sut mae'n ymgysylltu â'i gwsmeriaid darparwyr cyfathrebiadau ynghylch cynlluniau ar gyfer gwasanaethau a buddsoddiadau rhwydwaith newydd.

- 1.31 Rydym yn croesawu'r camau cadarnhaol sydd wedi cael eu cymryd gan Openreach a BT tuag at ddiwygio Openreach.
- 1.32 Er bod yr arwyddion hyn yn galonogol, y prawf go iawn ar gyfer y model newydd fydd a fydd yn darparu'r canlyniadau iawn i ddefnyddwyr, yn enwedig mwy o fuddsoddi mewn rhwydweithiau ac ansawdd gwasanaethau gwell.

Os na fydd yr Openreach newydd yn cyflawni, gallwn ni weithredu

- 1.33 Bydd llwyddiant yr Openreach newydd yn dibynnu ar gydymffurfiaid a chanlyniadau yn y farchnad. Rydym yn disgwyl, cyn pen tair blynedd o weithredu, y bydd hi'n amlwg pa mor dda mae'r model newydd yn cyflawni ar gyfer pobl a busnesau. Bydd y gwaith monitro ac asesu yn dechrau ar unwaith.
- 1.34 Bydd ymateb Ofcom i unrhyw achosion posib o fethu cydymffurfio â threfniadau gwirfoddol BT yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y methiant dan sylw. Os bydd achosion difrifol neu reolaidd o beidio â chydymffurfio, neu os daw hi'n amlwg nad yw'r gwahanu cyfreithiol yn gweithio'n gyffredinol, byddwn yn ailystyried ein safiad ar ymyriadau ffurfiol er mwyn mynd i'r afael â'n pryderon o ran cystadleuaeth.
- 1.35 Gallai hyn arwain at Ofcom yn rhoi gwybod i BT nad yw'r trefniadau newydd o dan yr Ymrwymadau yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny mwyach, ac o ganlyniad bod angen i ni ddechrau ailystyried gorfodi ateb rheoleiddiol, a allai gynnwys gwahanu strwythurol.

Band eang ffibr ar gael yn eang

Statws



Metrigau

Nifer yr eiddo sy'n cael eu pasio gan Ffibr i'r Cabinet (FTTC) Openreach	26.5m
Nifer yr eiddo sy'n cael eu pasio gan G.fast Openreach	Cyflwyno peilot
Nifer yr eiddo sy'n cael eu pasio gan Ffibr i'r Eiddo (FTTP) Openreach	345,000
Nifer yr eiddo sy'n cael eu pasio gan gystadleuwyr BT sy'n defnyddio pibellau a pholion Openreach	0

Band eang teilwng i bawb

Statws



Metrigau

Cyfran yr eiddo nad ydynt yn gallu cael cyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad o leiaf	5%
Cyfran y busnesau bach a chanolig nad ydynt yn gallu cael cyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad o leiaf	8%
Cyflymder llwytho i lawr mesuredig y DU ar gyfartaledd	37 Mbit yr eiliad
Cyflymder llwytho i lawr cyfartalog wedi'i fesur ar rwydwaith Openreach	[<] Mbit yr eiliad
ADSL*	[<] Mbit yr eiliad
FTTC	[<] Mbit yr eiliad
FTTP	[<] Mbit yr eiliad

Newid sylweddol mewn ansawdd

Statws



Metrigau

Cyfran y gosodiadau Openreach sy'n brydlon	93%
Cyfraddau namau blynyddol Openreach	11%
Cyfran y gwaith trwsio Openreach sy'n cael ei wneud o fewn y cyfnod y cytunir arno	83%
Cyfartaledd yr apwyntiad Openreach cyntaf sydd ar gael	8 diwrnod gwaith
Cyfran yr apwyntiadau Openreach sy'n cael eu colli	2%

Ffynhonnell: Cysylltu'r Gwledydd, 2016, Cymharu Ansawdd Gwasanaethau 2017, Ansawdd gwasanaeth ar gyfer WLR, MPF a GEA 2017, Gwefan Openreach.

Nodyn: Bydd cyflymderau ar gyfartaledd ar gyfer y rhwydwaith Openreach yn cael eu cyhoeddi yn ein Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd. Ni roddodd BT ganiatâd i'w cyhoeddi ar hyn o bryd.

**Mae Llinell Danysgrifio Ddigidol Anghymesur (ADSL) yn cyfeirio at dechnolegau sy'n defnyddio rhwydwaith copr Openreach.